Y Grŵp Trawsbleidiol ar Rwystro Plant rhag cael eu Cam-drin yn Rhywiol
Dydd Mawrth 11 Gorffennaf, 2016
Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol: Ymchwil a dadansoddiad

Nod y cyfarfod oedd rhoi trosolwg i Aelodau'r Cynulliad ac aelodau'r Grŵp o waith yr Ymchwiliad Annibynnol a'r cynnydd a wnaed

**Stephen Webster:** Pennaeth Ymchwil IICSA

Esbonio cylch gwaith a chefndir yr ymchwiliad a'r hyn y mae'n ei olygu

- Ystyried i ba raddau y mae sefydliadau'r Wladwriaeth a sefydliadau anwladwriaethol wedi methu yn eu dyletswydd gofal i amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol a rhag i neb gamfanteisio arnynt
- Ystyried y camau a gymerwyd ers hynny i ymdrin â'r diffygion hyn a nodi'r hyn y me angen ei wneud eto
- Ystyried y camau y mae angen i sefydliadau Wladwriaeth a sefydliadau anwladwriaethol eu cymryd i amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin yn y dyfodol

**Cefndir:** ymchwiliad statudol sy'n annibynnol ar y Llywodraeth ac sydd â'r pŵer i orfodi pobl i roi tystiolaeth. Mae'n cwmpasu Cymru a Lloegr, yn ymdrin ag unrhyw achos o gam-drin plant yn rhywiol lle bu methiant sefydliadol, "plentyn yw unrhyw un iau na 18 oed. Disgwylir yr adroddiad dros dro ynghyd ag argymhellion fis Ebrill 2018.

- Mae tair elfen graidd
    - Prosiect y gwirionedd
    - Gwaith ymchwil a dadansoddi
    - Gwrandawiadau cyhoeddus

Gwaith ymchwil a dadansoddi

1. Casglu ynghyd bopeth **a wyddwn eisoes am gam-drin plant yn rhywiol** a dod o hyd i'r bylchau yn ein gwybodaeth, a hynny drwy:
    - adolygu'r gwaith ymchwil a gyhoeddwyd (academaidd ac eraill)
    - ymgynghori ag arbenigwyr yn y maes
2. Cynnal gwaith **ymchwil a dadansoddi newydd** gan gynnwys:
    - dadansoddi gwybodaeth a ddaw i'r amlwg drwy Brosiect y Gwirionedd
    - gwaith gwerthuso, grwpiau ffocws, arolygon a chyfweliadau â dioddefwyr a goroeswyr, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd
3. Cynnal **seminarau ymchwil** gydag arbenigwyr perthnasol i drafod casgliadau ac i ystyried meysydd i'w harchwilio ymhellach
    - Cyfuniad o brosiectau mewnol a phrosiectau gan arbenigwyr allanol sy'n bartneriaid
    - Cyflwyno cod moesegol cryf a fydd yn sylfaen i'r gwaith
    - Rhaglen ymchwil 2017/18 ar y gweill

- Cyngor gan Fwrdd Cynghori Academaidd IICSA a Phanel Ymgynghorol Dioddefwyr a Goroeswyr

Adolygu’r Dystiolaeth - asesiad cyflym o'r dystiolaeth bresennol

| Ymchwiliad | Ffocws |
|---|---|
| **Trawsbynciol** | Arfer addawol o dramor o ran atal ac ymateb i achosion o gam-drin plant yn rhywiol |
| **Trawsbynciol** | Trafodaeth gymdeithasol a gwleidyddol ynghylch cam-drin plant yn rhywiol |
| **Trawsbynciol** | Effeithiau cam-drin plant rhywiol |
| **Rhyngrwyd** | Cam-drin plant yn rhywiol drwy gyfrwng y rhyngrwyd; 3 asesiad cyflwym o dystiolaeth:<br>• dioddefwyr a goroeswyr<br>• troseddwyr<br>• maint y broblem |
| **Sefydliadau Ariannol** | Achosion o gam-drin plant yn rhywiol mewn sefydliadau gwarchodol |
| **Yr Eglwys Anglicanaidd a’r Eglwys Gatholig** | Cam-drin plant yn yr Eglwys Anglicanaidd a'r Eglwys Gathol |

Ymchwil Sylfaenol

| Ymchwil | Ffocws |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Yr Eglwys Anglicanaidd a'r Eglwys Gatholig Rufeinig** | Ymchwil ansoddol i sampl o esgobaethau gyda chlerigwyr, swyddogion, dioddefwyr a goroeswyr i archwilio'r modd y caiff polisi ac arfer cenedlaethol eu rhoi ar waith yn lleol |
| **Cam-drin plant yn rhywiol drwy rwydweithiau pwrpasol** | Ymchwil ansoddol gyda throseddwyr i ddeall sut y caiff rhwydweithiau eu ffurfio a'u cynnal, sut y gellid eu hatal a ffactorau amddiffynnol. |
| **Atebolrwydd a gwneud iawn** | Ymchwil ansoddol gyda dioddefwyr a goroeswyr i archwilio'r cymorth sydd ar gael gan wasanaethau cymorth |
| | Ymchwil meintiol ac ansoddol gyda'r cyhoedd i gael eu barn am ddedfrydu ac atebolrwydd mewn achosion o gam-drin plant yn rhywiol |
| **Plant mewn sefydliadau gwarchodol** | Ymchwil ansoddol gyda staff a phobl ifanc i archwilio eu safbwyntiau ar bolisïau a phrosesau diogelu a'u profiad ohonynt |

| | |
|---|---|
| **Cartrefi preswyl** | Astudiaeth gwmpasu i archwilio pa mor gyffredin yw achosion o gam-drin plant mewn ysgolion preswyl |
| | Ymchwil ansoddol gyda staff, rhieni a phobl ifanc i ddeall y risgiau o ran diogelwch a ffactorau amddiffyn |
| **Y rhyngrwyd** | Dichonoldeb, prosesau a mesur effaith ymyriadau e-ddiogelwch mewn ysgolion |
| | Ymchwil ansoddol gyda phlant a phobl ifanc i ddeall ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol o ran cam-drin plant yn rhywiol sy'n gysylltiedig â |

| | |
|---|---|
| | thechnoleg gemau ar-lein |

Seminarau Ymchwil

- Ebrill 2017: *Dysgu o arfer gorau o dramor*
- Gorffennaf 2017: *Profiadau dioddefwyr a goroeswyr: effeithiau, gwasanaethau cymorth a gwneud iawn*
- Medi 2017: *Y Sector gofal iechyd:*
- Hydref 2017 *Lleisiau dioddefwyr a goroeswyr sy'n rhan o Brosiect y Gwirionedd*
- Tachwedd 2017: *Y system cyfiawnder troseddol*
- Chwefror 2018: *Trafodaethau cymdeithasol a gwleidyddol ar gam-drin plant yn rhywiol*

E-bost: ymchwil@iicsa.org.uk
Twitter: @InquiryCSA
#ResearchCSA
Gwefan: http://www.iicsa.org.uk/research-seminars/research